OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 3258 (Cy.285)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed Tachwedd - -	*8 Rhagfyr 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*10 Rhagfyr 2009*
Yn dod i rym - -	*1 Chwefror 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 22(1), 22(2)(c), 22(2)(d), 22(5)(a) ac 118A o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) (Diwygio) 2009 a deuant i rym ar 1 Chwefror 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002(3)

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 fel a ganlyn:—

(2) Ar ôl rheoliad 24(1) mewnosoder rheoliad 24(1A) newydd fel a ganlyn:—

24(1A.—(1) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau–

(a) nad yw ysbyty annibynnol sy'n darparu triniaeth a nyrsio i gleifion ag anabledd dysgu, y rhagwelir y bydd eu triniaeth a nyrsio yn ymestyn y tu hwnt i gyfnod o 12 mis, ac y darperir llety dros nos iddynt yn y sefydliad hwnnw, yn fwy na 10 o welyau, ac os yw'n rhesymol ymarferol, fe'u darperir mewn dwy neu fwy o unedau.

(b) nad yw ysbyty annibynnol sy'n darparu triniaeth a nyrsio i gleifion ag afiechyd meddwl (gan gynnwys y rheiny mewn llety diogel o lefel isel neu ganolig) ac hefyd i gleifion ag anabledd dysgu, y rhagwelir y bydd eu triniaeth a nyrsio yn ymestyn y tu hwnt i gyfnod

(**1**) 2000 p.14
(**2**) Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
(**3**) **2002/325 (Cy.35).**